# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (195)
# Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mercher, 29 Mawrth 2006

Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma.

.....................................

## Cwestiynau i Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Atebwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 8 + 12 eu grwpio. Tynnwyd cwestiynau 1, 3 + 7 yn ôl.

.....................................

**2.37pm**

## Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Atebwyd y 13 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiwn 7 i gael ateb ysgrifenedig.

.....................................

## Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**....................................**

**3.20pm**

**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**

**....................................**

**3.45pm**

**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru**

**NDM2969 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52**
**Derbyniwyd y cynnig**

**NDM2970 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 21 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51**
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

## 4.03pm

## Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006

**NDM2971 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49**
**Derbyniwyd y cynnig**

**NDM2972 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pwer i Fasnachu) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Derbyniwyd y cynnig**

**....................................**

## 4.05pm

## Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006

**NDM2973 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49**
**Derbyniwyd y cynnig**

**NDM2974 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2006 ynglyn â’r gorchymyn drafft, Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2006.

Dogfennau Ategol
Gorchymyn Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd Cymru (Cyfansoddiad) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Derbyniwyd y cynnig**

**.......................................**

**4.58pm**
**Cynnig Trefniadol**
**Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.19(v) i ohirio’r Ddadl Fer**
**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**
**O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48**
**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

## 4.09pm

## Dadl ar Gynigion ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol yn unol â RhS33.11

**NDM2975 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 33.9:

1. Yn cadarnhau cynigion y Cabinet ar gyfer Mesurau yn y sesiwn Seneddol nesaf fel y’u nodir yn y ddogfen a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2006;

2. Yn gofyn i’r Cabinet drafod y cynigion hyn ymhellach gyda Llywodraeth y DU ac yn pwyso am ddeddfwriaeth sylfaenol sy’n adlewyrchu anghenion neilltuol Cymru ac yn parchu rôl y Cynulliad.

Dogfennau Ategol
Cynigion y Cabinet ar gyfer Deddfwriaeth Sylfaenol, 2006-07

## 4.20pm

**Pwynt o Drefn: Cododd Peter Black Bwynt o Drefn ynghylch a ddylai Aelod nad oedd yn bresennol yn y Siambr ar gyfer yr araith agoriadol gael cymryd rhan mewn dadl. Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod hynny fel arfer yn wir, ond yng ngoleuni ymddiheuriad yr Aelod, byddai’n caniatáu iddo siarad ar yr achlysur hwn.**

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Iaith Gymraeg newydd i gadarnhau statws y Gymraeg fel iaith swyddogol; i roi'r hawl i ddinasyddion dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg; ac i hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwelliant 1**
**O blaid 17; Ymatal 5; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51**
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Rheoli Gwastraff i godi ceiniog am fagiau siopa plastig ac i gyflwyno mesurau eraill i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu rhoi polisïau ar waith ym maes rheoli gwastraff.

**Gwelliant 2**
**O blaid 16; Ymatal 6; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51**
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (Cymru) i warchod asedau Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol hyd byth.

**Gwelliant 3**
**O blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 51**
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Mastiau Telathrebu (Rheolaeth Cynllunio) (Cymru) i reoleiddio lleoli mastiau telathrebu yng Nghymru.

**Gwelliant 4**
**O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 51**
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Dydd Gwyl Dewi i sefydlu Dydd Gwyl Dewi yn wyl gyhoeddus yng Nghymru.

**Gwelliant 5**
**O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

**6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn credu y dylid cael Mesur Ynni (Cymru), a fyddai'n trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pwerau i wneud penderfyniadau cynllunio ynghylch datblygiadau ynni sy'n cynhyrchu mwy na 50MW.

**Gwelliant 6**
**O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn credu y dylid cael Mesur Heddlu (Cymru) a fyddai’n trosglwyddo’r cyfrifoldeb dros yr

Heddluoedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwelliant 7**
**O blaid 18; Ymatal 6; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn credu y dylid rhoi pwerau deddfu sylfaenol dros lywodraeth leol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y gellir cael system deg o ran etholiadau a threthi lleol yng Nghymru.

**Gwelliant 8**
**O blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 8**

**9. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Diwylliant (Cymru) - i sefydlu Oriel Genedlaethol ac Archif Genedlaethol i Gymru.

**Gwelliant 9**
**O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

**10. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Addysg (Cymru) - i annog datblygu ysgolion arbenigol yng Nghymru, gan ddechrau gydag ysgolion sy’n arbenigo ar y Gymraeg ac ieithoedd tramor modern.

**Gwelliant 10**
**O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 44; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 10**

**11. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Gwyl Banc (Cymru) – i sefydlu Dydd Gwyl Dewi yn wyl gyhoeddus swyddogol yng Nghymru.

**Cafodd Gwelliant 11 ei ddad-ddethol.**

**12. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) – i ddiwygio'r ddeddfwriaeth gyfredol a symud y pwyslais at therapi yn hytrach na’r gyfraith droseddol yng nghyswllt materion iechyd meddwl difrifol.

**Gwelliant 12**
**O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 12**

**13. Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur Etholiadau (Cymru) – fel y gellir cynnal etholiadau yng Nghymru ar ddiwrnod heblaw ar ddydd Iau.

**Gwelliant 13**
**O blaid 13; Ymatal 11; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 13**

**14. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am Fesur i ddileu’r ddyletswydd sydd ar elusennau i sicrhau’r pris uchaf am eu hystâd pan fyddant yn gwaredu tir, a hynny petai’r tir yn cael ei ddefnyddio fel arall er lles cymunedau lleol.

**Gwelliant 14**
**O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 53**
**Gwrthodwyd Gwelliant 14**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
**O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 11; Cyfanswm 53**
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.14pm**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 4 Ebrill 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF